# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## CWLS (2) 14-06 (p 2)

## Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2006
## Amser y cyfarfod: 9:00am – 12:20pm
## Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

### Dyfodol y berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru a datblygu polisïau ar gyfer chwaraeon

### Diben

1. I roi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor a rhoi manylion y cynigion y cytunwyd arnynt gyda Chyngor Chwaraeon Cymru.

### Crynodeb/Argymhellion

2. Yn dilyn fy mhapur i'r Pwyllgor ar 11 Hydref, gofynnoch am bapur pellach i roi mwy o fanylion am y ffordd y mae polisïau ar gyfer chwaraeon yn cael eu datblygu.

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur.

### Y Cyd-destun

4. Yn ei ddatganiad ar 30 Tachwedd 2004 ar ddiwygio'r CCNCau cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddwn yn dwyn galluoedd Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Chwaraeon Cymru o ran polisi, strategaeth a chynllunio ynghyd ac yn ailddiffinio'r berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Chwaraeon Cymru.

### Cynigion

5. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Chwaraeon arbenigedd rhyngddynt o ran ymchwil a gwerthuso (cynllunio) a datblygu polisi. Fodd bynnag, mae'r arbenigedd hwn yn rhanedig ac felly rwyf wedi cytuno â Chadeirydd y Cyngor Chwaraeon fod yn rhaid i ni ddwyn yr arbenigedd hwn ynghyd drwy greu uned polisi, strategaeth ac ymchwil newydd o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Drwy wneud hyn yn unig y gallwn ddatblygu polisïau cydlynol ar gyfer cyflawni'r targedau uchelgeisiol a ddisgrifir yn Dringo'n Uwch.

6. Ein bwriad wrth ddwyn yr arbenigedd hyn ynghyd yw cryfhau ein gallu cyffredinol o ran datblygu polisïau chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Bydd yn creu màs critigol yn nhermau pobl a fydd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwerthuso polisïau yn fanwl a datblygu polisïau ar sail tystiolaeth.

7. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn cynnig cyfleoedd secondio i nifer bychan o staff y Cyngor Chwaraeon i ymuno ag Uned Polisi Chwaraeon Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r model hwn wedi'i ddefnyddio o'r blaen i benodi'r Pennaeth Polisi Chwaraeon presennol, sydd ar secondiad o Gyngor Chwaraeon Cymru.

8. Nid wyf yn disgwyl i fwy na 5 neu 6 o bobl gael secondiad ar yr un pryd, ac nid yn unig y bydd y cyfleoedd hyn yn creu'r gallu sydd ei angen arnom, ond hefyd yn gyfleoedd datblygu a fydd yn rhoi boddhad i'r unigolion o dan sylw.

9. Rwyf wedi cael nifer o gyfarfodydd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr y Cyngor Chwaraeon ac mae fy swyddogion wedi cael cyfarfodydd â swyddogion ac aelodau'r Cyngor Chwaraeon. Mynychais gyfarfod llawn o'r Cyngor yn ddiweddar hefyd i drafod y newidiadau hyn. Mae nifer o faterion ymarferol sy'n dal heb eu datrys gan gynnwys cynnal trafodaethau manwl gydag unigolion y gallai'r newidiadau hyn effeithio arnynt. Ni fyddai'n addas i mi roi mwy o wybodaeth am y swyddi a'r cyfrifoldebau unigol hyn ar hyn o bryd.

10. Mae materion yn codi hefyd mewn perthynas â system lywodraethu'r Cyngor a'u rôl fel corff sy'n dosbarthu arian y loteri. Rydym yn archwilio'r materion hyn yn ofalus ond rydym yn bwriadu sicrhau na fydd dim yn cael ei wneud allai amharu ar allu'r Cyngor Chwaraeon i gydymffurfio â manylion ei Siarter Frenhinol na'i swyddogaethau fel corff sy'n dosbarthu arian y Loteri.

11. Mae'r manylion uchod yn ychwanegu at fy mhapur blaenorol lle y bu imi hefyd amlinellu ychydig o newidiadau ymarferol eraill yr hoffwn eu gweld o ran ailddiffinio'r berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Chwaraeon. Mae'r newidiadau fel a ganlyn:

- meithrin perthynas llawer agosach rhyngof fi a'r Cyngor drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd ag aelodau o'r Cyngor gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor llawn;
- datblygu'r briff ar gyfer y Cyngor a'i rôl i ystyried rôl ehangach y Llywodraeth o ran gwneud polisïau strategol;
- trefnu i gydweithio ar feysydd allweddol i wella'r synergedd rhwng polisïau a datblygu strategol o fewn Llywodraeth y Cynulliad a'r darparu ar y rheng flaen drwy gyfrwng y Cyngor Chwaraeon a phartneriaid eraill;
- bydd ymchwil a gwerthuso yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu polisi o fewn Llywodraeth y Cynulliad, gan olygu y bydd ymchwil arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn yn cael ei defnyddio i lywio unrhyw ddatblygiadau polisi;
- drwy sicrhau fod Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Chwaraeon yn cyfathrebu fel tîm bydd modd cynllunio a darparu'n effeithiol;
- bydd swyddogion polisi yn chwarae rhan agosach o ran helpu i wireddu polisïau'r Cyngor Chwaraeon gan feithrin mwy o gysylltiadau effeithiol rhwng y Llywodraeth a'i hasiantwyr gweithredu; a
- chydweithio ar brosiectau penodol i sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu a bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol.

**Alun Pugh AC,**

**y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**